# Darlith Addysg Cymru
# The Wales Education Lecture 2010

## *Hir pob aros a nawr dyma ni: rôl gyfnewidiol addysgu ac athrawon yn yr 21ain ganrif*

Yr Arglwydd Puttnam o Queensgate, CBE

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
General Teaching Council for Wales

**Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw'r corff statudol, hunanreoleiddiol a phroffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru. Mae'n ceisio codi statws addysgu trwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion proffesiynol ac ymddygiad er lles athrawon, disgyblion a'r cyhoedd.

Prif nodau'r Cyngor yw:

- cyfrannu tuag at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu, a
- chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon, er lles y cyhoedd.

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
4ydd Llawr, Southgate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 029 2055 0350
Ffacs: 029 2055 0360

## Darlith Addysg Cymru

Ar 4 Hydref 2010, traddodwyd Darlith Addysg Cymru gan Yr Arglwydd Puttnam o Queensgate, CBE yn yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd.

## Yr Arglwydd Puttnam o Queensgate, CBE

Treuliodd yr Arglwydd David Puttnam 30 mlynedd yn gweithio fel cynhyrchydd ffilmiau annibynnol. Ymysg ei ffilmiau gwobrwyedig, mae *The Mission, The Killing Fields, Local Hero, Chariots of Fire, Midnight Express, Bugsy Malone*, a *The Memphis Belle.*

Ymddeolodd o'r byd ffilmiau ym 1998 i dreulio amser a chanolbwyntio ar addysg a'r amgylchedd. Sefydlodd y Gwobrau Addysgu Cenedlaethol ym 1998, a bu'n gwasanaethu fel cadeirydd cyntaf CyngAC Lloegr (rhwng 2000 a 2002). Daeth yn Ganghellor y Brifysgol Agored yn 2006.

Dyfarnwyd y CBE iddo ym 1982, derbyniodd urdd marchog ym 1995, ac fe'i penodwyd i Dŷ'r Arglwyddi ym 1997.

Fel llywydd UNICEF UK (2002-09), chwaraeodd yr Arglwydd Puttnam rôl eiriolaeth allweddol ar ran hawliau plant ym mhedwar ban y byd. Daeth yn Llysgennad i UNICEF UK ym mis Mehefin 2009.

# Hir pob aros a nawr dyma ni: rôl gyfnewidiol addysgu ac athrawon yn yr 21ain ganrif

Noswaith dda, a diolch i chi am y cyflwyniad caredig iawn hwnnw.

Fel y gwyddoch mae'n siŵr, rwyf wedi ymddeol erbyn hyn o'r byd cynhyrchu ffilmiau nodwedd; mae mwyafrif helaeth fy ngwaith yn ystod y deuddeng mlynedd diwethaf wedi ymwneud â meysydd addysg a pholisi cyhoeddus. Fodd bynnag, nid profiad cyfan gwbl hapus a gefais i'n bersonol o addysg ffurfiol, fel y gobeithiaf y byddwch yn gweld o'r anecdot hwn o'm dyddiau ysgol!

Daeth fy ngyrfa Ysgol Ramadeg i ben yn 16 oed gyda'r cyfarfod statudol fel yr oedd ar y pryd rhyngof fi a'r Meistr Gyrfaoedd (y Dirprwy Bennaeth oedd hwnnw, mewn gwirionedd, Dr Packer). Ar gyfer y cyfarfodydd hyn ni fyddai'n gwisgo'r gŵn arferol - a bwriad hynny, tybiaf i, oedd dynodi natur 'secwlaidd' neu anaddysgol y cyfarfodydd hyn!).

Wedi treulio deng mlynedd ar hugain yn gwneud ffilmiau, gobeithio y gwnewch chi faddau i mi os mentraf i ail-fyw'r olygfa fythgofiadwy hon ar lafar:

***Dr Packer:*** Wel, fachgen, wedi gwastraffu pum mlynedd gwerthfawr o'th fywyd di a bywyd pob un arall, beth sydd gen ti mewn golwg fel gyrfa?

***Fi:*** Dydw i ddim yn gwbl siŵr, Syr.

***Ef:*** Wel, rwyt ti wedi argyhoeddi'r arholwyr yn ddigonol nad wyt ti'n glyfar iawn – ond rwyt yn ddigon hawddgar, felly rwy'n awgrymu y dylet feddwl o ddifrif am weithio fel 'rep'.

***Fi:*** (Yn ymwybodol fy mod ar fin atgyfnerthu ei farn am fy neallusrwydd!) Sori Syr, beth yw 'rep'?

***Ef:*** Wel, gallet weithio i un o'r cwmnïau mawr hynny sy'n gwerthu nwyddau mewn pecynnau, a gyrru o amgylch y wlad yn casglu, neu'n cludo archebion.

***Fi:*** Beth – fel rhyw fath o yrrwr fan, Syr?

***Ef:*** Na fachgen, gallet fod wedi mynd i Ysgol Uwchradd Fodern petait am wneud hynny.

***Fi:*** Wel, diolch yn fawr iawn ichi Syr, ond o'r ffordd rydych yn ei ddisgrifio, nid gweithio fel 'rep' oedd gen i mewn golwg mewn gwirionedd.

***Ef:*** Dylet fod wedi meddwl am hynny pan ddaethost ti yma gyntaf; yn wir, o ystyried dy gofnod academaidd gresynus – yn fwyaf arbennig ym maes Mathemateg – rwy'n tybio mai dyna'r unig ffordd y byddi di byth yn berchen ar gar!

Byddai'r stori honno'n ddoniol – pe na bai'n wir bob gair.

I mi, mae'n cadarnhau mai peth hurt yw credu y gellid neu y dylid pennu tynged person ifanc, mewn unrhyw ffordd ddifrifol, yn 15, 16 neu hyd yn oed 18 oed. Heddiw, nid oes gennym ddewis ond cydnabod mai'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen i lwyddo ym myd gwaith yw hyblygrwydd a'r gallu i addasu – y gallu i symud drwy lu o wahanol rolau, yn aml mewn gwahanol sectorau o'r economi, a hyd yn oed mewn gwahanol ranbarthau a gwledydd. Mae fy mhrofiad i fy hun yn fwy trawiadol eto oherwydd bod gofyn i mi ymwneud â mathemateg weddol soffistigedig bob dydd yn ystod y 30 mlynedd nesaf unwaith i mi ddod yn gynhyrchydd ffilmiau!

Mewn gwirionedd, tua'r adeg roeddwn yn gadael yr ysgol – diwedd y pum degau – cyhoeddwyd darn hynod o ddiddorol ac eithaf dylanwadol o ymchwil academaidd yn y DU. Bydd rhai ohonoch yn ymwybodol ohono; roedd yn ymwneud ag astudiaeth eithaf mawr o blant ifanc a oedd wedi bod yn yr ysgol ers ychydig fisoedd yn unig.

Gofynnwyd i'r plant ddyfarnu gradd iddyn nhw eu hunain o ran pa mor glyfar oeddent yn eu tyb nhw – o'u cymharu â'u cymheiriaid yn y dosbarth. Yna gofynnwyd i'r athrawon ddyfarnu gradd i'r plant yn yr un modd yn ôl eu barn nhw o allu cymharol y disgyblion. Yna, cymharwyd canlyniadau'r athrawon a'r disgyblion, a chanfu eu bod yn syndod o gyson. Mae hyn yn dangos bod y plant wedi dod i'r un farn â'u hathro o'u galluoedd nhw eu hunain a galluoedd plant eraill, o fewn ychydig fisoedd yn unig. Roeddent wedi dod i dderbyn eu lle mewn 'hierarchaeth allu' ac, heb fawr syndod, wedi dechrau ymddwyn yn unol â hynny.

Gwnaeth darllen yr astudiaeth hon helpu i'm hargyhoeddi bod ein disgwyliadau ohonom ni ein hunain yn cael eu ffurfio'n ifanc iawn – ac mae hyn yn aml yn ailymddangos ar ffurf 'tangyflawni'. Roeddwn i'n un o'r bobl ifanc ffodus hynny a oedd yn amharod i dderbyn tynged dybiedig y Meistr Gyrfaoedd, a hynny o ganlyniad i fendith rhieni a oedd yn gyfan gwbl gyson eu cefnogaeth a'u crediniaeth ynof fi. Yn hynny o beth, gallwn fentro i'w ddweud, mae'n bosibl fy mod yn unigolyn cymharol brin. Effaith athro neu athrawes dda iawn fel arfer yw'r un sy'n gwneud argraff sy'n para oes.

Dros y deuddeng mlynedd diwethaf, ac wedi ymweld â bron i bum cant o ysgolion ym mhob rhan o'r byd, gan gynnwys rhai yma yng Nghymru, rwyf hyd yn oed yn fwy argyhoeddedig bod y profiad rwyf newydd ei ddisgrifio – sef bod rhywun yn colli gobaith ynof fi – ymhell o fod yn anarferol, ac mae hynny'n drasig o beth; mewn gwirionedd, yr unig beth arferol am fy ngyrfa fy hun oedd graddau'r 'hunangred' a roddwyd i mi gan yr ychydig bobl eithriadol o hael a awgrymodd y gallai fod gennyf rywbeth i'w gynnig.

Yr hyn sy'n sicr yw bod y cyfnod diweddaraf o'm bywyd, a'r cyfnod sydd wedi rhoi llawer iawn o fodlonrwydd i mi, wedi rhoi cyfle i mi ymgysylltu â phobl sy'n ymdrechu, bob diwrnod o'u bywydau gwaith, i greu'r 'blociau adeiladu' y bydd eu hansawdd yn pennu dyfodol ein planed ym mhob math a ffyrdd. Y 'blociau adeiladu' hynny, yn bennaf, yw plant a phobl ifanc; a'r unigolion y treuliais lawer o'm hamser yn gweithio gyda nhw yw eu 'hathrawon'.

Ac os yw'r dyfodol yn edrych yn fwyfwy tebyg i 'ryfel', fel y gwelaf i bethau yn sicr; yna y genhedlaeth ddiweddaraf o athrawon a'r adnoddau sydd ar gael iddynt sy'n cynrychioli'r peth agosaf at 'filwyr' sydd ar gael i ni! Sef cenhedlaeth o athrawon hyderus sydd wedi'u hyfforddi'n dda, sy'n gyffyrddus gyda goblygiadau byw mewn cymdeithas ddigidol, ond sydd hefyd yn arbennig o ymwybodol o'r heriau anferth newydd sy'n debygol yn sgil hynny. Athrawon, a'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal, yn fy llygaid i, sy'n cynrychioli'r sylfaen fwyaf addawol i greu cymdeithas gynaliadwy arni, yma yng Nghymru – neu yn unrhyw ran arall o'r byd o ran hynny.

Wrth fynd heibio, dylwn ddweud bod hyn yn un yn unig o'r rhesymau pam rwyf mor falch bod gennych chi, yma yng Nghymru, Gyngor Addysgu Cyffredinol o hyd; tra bod y Glymblaid yn Llundain wedi gwneud y penderfyniad hynod o annoeth i ddileu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr – y bûm i'n Gadeirydd sylfaenol arno. Mae llawer mwy i'r sylw hwnnw nag achos gwleidyddol o 'gig cas yw cig coch' – onid union bwrpas ein system Lywodraeth benodol ni yw diwygio a gwella'r hyn a gafwyd o'r blaen, nid ei ddinistrio, gan adael gwagle ar ei ôl.

Dros y tri degawd diwethaf, rwyf wedi eistedd ar Fwrdd o leiaf ddwsin o gyrff cyhoeddus, y gellid yn hawdd fod wedi disgrifio eu perfformiad, ar ryw adeg neu ei gilydd, yn 'llai na'r gorau y gallai fod'. Gellid bod wedi cyfiawnhau cau pob un o'r sefydliadau hynny, ar ryw adeg neu'i gilydd, petai'r Gweinidog cyfrifol wedi dymuno hynny. Ond yn hytrach, bwriodd y Byrddau ymlaen gyda'r broses anodd a heriol o ddiwygio a gwella, yn aml gyda chefnogaeth yr Adran berthnasol o'r Llywodraeth. Ym mhob un achos, yr hyn a ymddangosodd oedd sefydliad llawer mwy effeithiol ac effeithlon, a oedd yn cyflawni deilliannau gwell i'w holl gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

Mae'n bosibl nad oedd CyngAC Lloegr yn berffaith – ychydig o gyrff sydd yn berffaith! – ond y peth olaf un y dylai Llywodraethau fod yn ei wneud yw dileu cyrff cyhoeddus heb fawr ddim pwrpas amlwg a heb unrhyw gynllun o fath yn y byd. Mae gan gyrff sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, ond sy'n atebol i'r Llywodraeth, neu hyd yn oed yn cael eu gorchwylio ganddi, rôl hanfodol a pharhaus i'w chwarae wrth gyflawni polisi addysgol - ac mae rhetoreg niwrotig y Llywodraeth hon am 'gwangos', 'gorbenion' a 'biwrocratiaeth' yn rhywbeth y gobeithiaf yn fawr a gaiff ei wrthod o hyd yma yng Nghymru - hyd yn oed ar adeg pan fydd pwrs y wlad yn wynebu heriau anferthol. Yn wir, yn hyn o beth gymaint ag mewn meysydd eraill, mae llawer y gall Lloegr ei ddysgu

o Gymru - fel y nododd yr Athro David Hawker yn glir yn y Ddarlith ragorol y llynedd yn yr Athrofa Addysg.

Felly, dychwelaf i'm prif thema, sef y 'rhyfel' hwnnw y cyfeiriais ato'n gynharach rhwng y presennol sy'n cael ei fethu i raddau helaeth yn fy nhyb i, a'r posibilrwydd o ddyfodol ag iddo lawer mwy o ddychymyg. Ac nid mater yn unig o'm dymuniad i ni fwynhau dyfodol ag iddo fwy o ddychymyg mohono - mae'n ymwneud yn fwy â'r ffaith na welaf unrhyw fath o ddyfodol i ni oni bai inni fod yn barod i ddefnyddio llawer mwy o ddychymyg!

Fel bob amser, mater fydd hwn fwy na thebyg o bwyso a mesur a gwneud y peth iawn. Bûm yn ddigon hapus i fuddsoddi fy egni mewn gwella ansawdd, enw da a pherthnasedd addysg, sydd yn ei dro wedi fy arwain i'r casgliad nad oes unrhyw ddewis gennym os ydym wir yn barod i gydio yn heriau anferthol y 21ain ganrif, ond i gydio yn yr un modd yn y grym yr un mor anferthol sy'n ymddangos yn sgil y technolegau digidol diweddaraf. A gwneud hynny mewn ffordd sy'n datgelu gwir olwg ein cyfradd weithredu bresennol – sef petrusgar a gresynus o annigonol. Y gwir amdani yw hyn; i raddau helaeth mae bywyd y tu hwnt i glwydi'r ysgol a waliau ein colegau a'n prifysgolion wedi'i drawsnewid yn llythrennol yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Mae technoleg ddigidol – boed yn ffonau symudol, y rhyngrwyd neu gemau fideo – wedi ailffurfio'n sylfaenol y ffordd mae pobl ifanc yn ymgysylltu â chymdeithas, ac yn gwneud synnwyr ohoni.

Yn gam neu'n gymwys, mae'r un bobl ifanc hyn yn disgwyl math cwbl newydd o berthynas gyda'r byd o'u cwmpas; un nad yw'n dibynnu'n unig ar gyrchu gwybodaeth, ond ar greu gwybodaeth newydd, cynnyrch newydd a hyd yn oed adnoddau newydd. Nid yw dysgu bellach yn rhywbeth a ddylai ddigwydd o fewn oriau penodol, mewn lleoliad penodol, neu gyda grŵp penodol o bobl. Mae grym aruthrol y we fyd eang yn cynnig 'adnodd gwybodaeth' rhagorol sydd ond clic i ffwrdd; mewn ysgolion, colegau, cartrefi ac ar daith; i'r graddau fel bod gan unrhyw un sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd y grym i gyrchu'r 'trysor cudd' o wybodaeth o fewn eiliadau, yn llythrennol.

Fel perchennog balch Apple iPad – sydd wedi ymsefydlu'n gyflym fel un o'r teclynnau mwyaf gwerthfawr yn fy storfa broffesiynol – rwy'n arbennig o ymwybodol bod llyfrgell ddigidol y byd ar agor bob amser – ni waeth bynnag ble rydym ni. Ond eto i gyd mae'r un mor wir i ddweud bod bodolaeth y doreth ryfeddol hon o wybodaeth yn gwneud yr angen am athrawon a mentoriaid – yn eu hanfod, 'arweinwyr dysgu sicr' – yn fwy hanfodol nag erioed o'r blaen. Mae pobl ifanc yn arbennig yn graff iawn am ddefnyddio'r dechnoleg – llawer yn fwy craff na'r rhan fwyaf ohonom, tybiaf.

Ond mae cryn heriau ynghlwm â'u helpu i 'nithio'r grawn oddi wrth yr us', y da o'r drwg, y gwerthfawr o'r diwerth; eu helpu i ddeall ym mha ffyrdd y gall delweddau digidol ystumio'r byd o'u cwmpas tra'n ymddangos fel petai'n ei siapio hefyd. Ac, fel yr

awgrymais yn gynharach, y ffactor hanfodol wrth greu'r amgylchedd dysgu cyfrifol hwn yw system addysg lwyddiannus a hyderus; sy'n cynnwys athrawon neilltuol a seilwaith o'r radd flaenaf yn y byd. Mae angen i'r seilwaith 'newydd' hwn, a'r TGCh sy'n eistedd yn ei ganol, adlewyrchu realiti, ac yn bwysicach byth, y cyfleoedd sydd wedi'u cyflwyno yn sgil byd cyfan gwbl ddigidol.

Er mor anghyffyrddus mae'n ymddangos, dim ond dau wir ddewis sy'n bodoli yma. Naill ai dylai ysgolion yn arbennig ddod o hyd i ffordd i ymgysylltu â'r math o gyfryngau digidol y mae pobl ifanc yn gyfarwydd â nhw, a'u defnyddio, neu bydd y bobl ifanc eu hunain yn dod i'r casgliad nad oes fawr ddim neu ddim byd gan yr ysgol i'w wneud gyda nhw a'u byd – a mwyfwy, byddant yn ymneilltuo, ar lefel emosiynol ar y lleiaf. Os bydd hyn yn digwydd, yr unig beth fydd ar ei golled, fydd 'addysg' fel yr ydym ni'n gyfarwydd â'r term.

O'm safbwynt i, mae'n ddyletswydd lwyr ar y rheiny ohonom sy'n gallu dylanwadu ar gyfeiriad addysg yn y dyfodol i ddod o hyd i'r ffyrdd o ddefnyddio, fel 'arfau', y creadigrwydd, y technolegau, yn wir y doreth o gyfryngau cyfoethog yn eu cyfanrwydd y mae pobl ifanc yn cael eu denu atynt yn fwyfwy am unrhyw nifer o resymau cwbl ddealladwy. Ond eto i gyd, athrawon, lawn cymaint â'r dechnoleg, fydd yn atebol am y gwahaniaeth hollbwysig rhwng codi'r trothwy – neu ei weld yn aros yn yr un safle torcalonnus fel y bu erioed. A bod yn fanwl gywir, yr athro neu'r athrawes fedrus, sy'n gallu defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf yn ddeheuig, fydd ased mwyaf cymdeithas yn fwyfwy.

Yn ei hanfod, ystyr hyn – sef y gallu i gaffael dealltwriaeth – yw dychwelyd dysgu i'w union le haeddiannol, sef wrth wraidd ein diddordebau. Ac unwaith y bydd dysgu wrth galon y byd digidol newydd, oni fydd yn dilyn mai'r athrawon rwy'n eu disgrifio fydd yn gwneud iddi guro.

Mewn gwirionedd, nid yw'n cymryd llawer i gydnabod, ar ddiwedd y dydd, mai athrawon yw'r allweddol i ddyfodol pob un ohonom. Mewn byd a ddominyddir yn fwyfwy gan Google, Apple, Facebook, a'r gweddill, mae'n talu ffordd i'n hatgoffa ein hunain yn gyson na all unrhyw system addysgol fyth fod yn well nag ansawdd ei hathro cyfartalog. Mae pob darn o ymchwil gymdeithasol i mi ei ddarllen yn ystod y deuddeng mlynedd diwethaf - ac rwyf wedi darllen llawer - yn cadarnhau ac ail-gadarnhau'r ffaith honno; ni chredaf y bydd pwysigrwydd addysgu da yn newid un iot. Fodd bynnag, mae ein diffiniad o'r hyn sy'n gwneud athro da yn debygol o newid, a newid cryn dipyn.

Wrth gwrs, bydd rhinweddau fel arweinyddiaeth, gwybodaeth a'r gallu i ysbrydoli ac ennyn chwilfrydedd yn nodweddion sylfaenol am byth. Bydd angen i athrawon fod yn hyfforddwyr, yn gydweithwyr ac yn gyfeillion, ond yn ogystal â hynny, bydd sylwedd beunyddiol eu sail sgiliau proffesiynol yn newid. A hynny, am ddim rheswm arall heblaw

i adlewyrchu disgwyliadau eu myfyrwyr a fydd yn prysur newid – ac mae gan hyn oll oblygiadau ar gyfer yr ystafell ddosbarthu a dulliau rheoli ysgolion.

Mae'r model o weld 20 neu 30 o fyfyrwyr mewn rhesi cymen yn wynebu athro unigol yn troi'n anacroniaeth, neu dylai droi'n anacroniaeth yn fuan iawn, mewn oes o ffonau smart sgrîn-gyffwrdd, cyfrifiaduron tabled a thechnoleg bwrdd gwyn. Mewn byd o Skype, camerâu ar gyfer y we a fideo-gynadledda, pam na all plant Cymru mewn ysgolion yng Nghymru gael eu helpu i ddysgu Ffrangeg gan blant o Ffrainc mewn ysgolion yn Ffrainc; neu ddysgu ffiseg gan rywun sydd wedi ennill gwobr Nobel? Mae'r ddau yn bethau y cefais y fraint o'u gweld mewn ysgolion arloesol yma yn y DU! Af ymhellach; pam ddylai athrawon fod yn gyfrifol am oruchwylio'u myfyrwyr yn ystod yr awr ginio, neu sicrhau bod y cyfrifiaduron yn gweithio, pan mae llu o wirfoddolwyr ac arbenigwyr a allai eu cefnogi'n hawdd yn union y meysydd hyn?

Ar y pwynt hwn dylwn gymryd seibiant i wneud fy marn yn gwbl glir ynghylch rhywbeth pwysig iawn: nid yw'r un o'r datblygiadau technolegol rwyf wedi sôn amdanyn nhw, ac rwy'n pwysleisio hyn, dim un, yn negyddu'r angen sylfaenol i ganolbwyntio ar y sgiliau darllen, ysgrifennu a mathemategol hynny sydd yn parhau i fod wrth galon gallu person i gyfleu ei hun fel dinesydd gweithredol a hyddysg, mewn cymdeithas fyd-eang gynyddol gystadleuol.

Ond ar yr un pryd, fel y dywedais eisoes, mae'n rhaid i'r sefydliad addysgol ystyried set o ffeithiau sylfaenol o wirionedd plaen am y ffordd y mae disgwyliadau pobl ifanc wedi newid -yn sicr os bydd gennym unrhyw obaith o gyflwyno dysgu sy'n ymgysylltu â nhw, yn eu llygaid nhw, ac sy'n parhau'n 'addas at y diben' dros y degawdau sydd i ddod. Nid mater mohono o ddewis rhwng ysgrifennu, darllen a mathemateg ar y naill law ac addysg lle gwelir 'sgriniau' yn disodli 'llyfrau' ar y llall.

Onid, yn wir, mater ydyw o afael yng ngrym technoleg i alluogi plant a phobl ifanc i gaffael dealltwriaeth a gwybodaeth am y byd yn y ffordd sydd fwyaf cyfarwydd a chyffyrddus iddyn nhw - fel bod ein systemau addysg yn parhau i ddatblygu dinasyddion gwybodus, cyfrifol, a phobl greadigol neilltuol - fel y gwnaethant erioed, pan ar y brig. Mae llawer o'r hyn rwy'n ei gynnig yn anochel yn herio'r *hyn* rydym yn ei addysgu; yn ogystal â *sut* caiff ei addysgu - a *pham* caiff ei addysgu hyd yn oed, mewn rhai achosion!

Mae hyn yn ei dro yn tanlinellu'r ffaith bod buddsoddiad cyson mewn datblygiad proffesiynol parhaus yn gwbl hanfodol wrth alluogi athrawon i ddatblygu, a pharhau'n hyderus, mewn amgylchedd TGCh sy'n prysur newid. Ac rwyf YN sôn am fuddsoddi – nid yw DPP yn rhywbeth y gellir ei ffarmio allan i ryw gysyniad aneglur o'r 'Gymdeithas Fawr'; neu i lu o gyflenwyr yn y trydydd sector. Na, y tro hwn mae angen ymrwymiad ariannol ystyrlon, wedi'i gorlannu gan y Llywodraeth – yma yng Nghymru ac yn Llundain.

Yn fy marn i, byddai'n gwbl wirion, ac yn hollol wrthgynhyrchiol, i unrhyw weinyddiaeth yn y DU geisio cwtogi ar fuddsoddi yn ein gweithlu athrawon yn ystod y degawd hanfodol sydd i ddod; a hoffwn feddwl bod hynny'n rhywbeth y mae'r sector yn ei gyfanrwydd yn ymrwymedig iddo, ni waeth bynnag ei ogwydd gwleidyddol sylfaenol. Mewn llyfr diweddar o'r enw 'Re-inventing Schools', sy'n edrych yn ôl dros lwyddiannau a methiannau addysg yn yr ugain mlynedd diwethaf, dyfynnir y cyn-ysgrifennydd Gwladol Ceidwadol yn dweud:

> "Deuthum i'r swydd gyda'r farn sylfaenol, sy'n parhau hyd heddiw, bod Gweinidogion… yn cael dweud fel y mynnant am yr hyn y dylai athrawon ei wneud, ond yn y pen draw mae athrawon ar eu pen eu hunain yn yr ystafell ddosbarth ac, felly, nhw yw'r elfen bwysicaf yn y byd addysg ".

A dyma addysgwraig amlwg arall, Pauline Perry, yn yr un llyfr, yn gwneud yr un sylw:

> "Gallwch chwarae o gwmpas ag arholiadau; gallwch gyflwyno targedau a phob math o beth, ond nid y rheiny sydd wrth wraidd y mater. Pan fyddwch chi, fel athro, yn cyrraedd yr ystafell ddosbarth ac yn cau'r drws, mater rhyngoch chi a'r plant ydyw".

A chan wybod cymaint o olwg sydd gan y Llywodraeth Glymblaid yn Llundain ar farn 'capteiniaid diwydiant' - dyma gyfraniad pwysig o'r sector preifat.

Dyma a ddywedodd neb llai na pherson o'r enw John Pepper, cyn-gadeirydd a phrif weithredwr Procter and Gamble, mewn araith ychydig fisoedd yn ôl. Mae ef o'r farn: 'mai ein cyfle mwyaf realistig i wneud cynnydd yw drwy wella'n sylweddol y camau i baratoi a datblygu athrawon yn broffesiynol yn barhaus… rhaid i ni roi'r addysg a'r datblygiad proffesiynol o ansawdd iddynt fel y byddem yn ei ddisgwyl mewn unrhyw broffesiwn".

Felly dyma dri llais profiadol ac uchel eu parch yn dod i union yr un casgliad; neu, fel y gallai Bill Clinton fod wedi'i ddweud, "Yr athrawon ydyw, stiwpid".

Pam rwyf mor argyhoeddedig felly bod ansawdd yr addysg a gyflwynwn i'n holl blant a phobl ifanc o gymaint o bwys i bob un ohonom? Wel, yn amlwg, yn byw mewn cymdeithas fyd-eang lle mae cystadleuaeth economaidd yn fwy dwys nag ar unrhyw adeg ers i'r Chwyldro Diwydiannol gyrraedd ei frig, mae'n gyfan gwbl hanfodol ein bod yn datblygu gweithlu sydd yr un mor fedrus, mor hyblyg ac wedi'i baratoi i fod mor rhagorol ag y gall fod i ymdrin â'r technolegau cymhleth – rhai digidol yn bennaf – y mae ein heconomi yn fwyfwy dibynnu arnynt.

Rhag ofn bod rhywun dan gamargraff am natur y cyfleoedd i'n heconomi yn sgil y technolegau newydd hyn – rhywbeth y bûm yn pregethu yn ei gylch ers bron i ugain mlynedd – dyma enghraifft o 'fusnes o'r newydd' y bûm yn ddigon ffodus i fod â chysylltiad agos ag ef.

Mae hyn yn ymwneud â chwmni addysg ryngweithiol a leolir yn Blackburn, o'r enw Promethean, y deuthum ar ei draws yn 2003, a oedd yn gwneud trosiant ar y pryd o £38.5 miliwn. Y llynedd roedd ei drosiant wedi cyrraedd £205 miliwn. Yn 2003 roedd ganddo gyfanswm o 200 o staff; y llynedd roedd yn 800 – gyda mwy na'u hanner yn dal i weithio yn Blackburn. Cyfanswm y bil cyflogau yn 2003 oedd ychydig dros £5 miliwn; y llynedd roedd yn fwy na £33 miliwn. A dyma'r ffaith fwyaf diddorol:

Yn 2003 cyflog cyfartalog pob aelod o'n staff oedd £25,000; y llynedd, yn Blackburn, roedd wedi dyblu. Felly, dyna ddwywaith cymaint o bobl, yn ennill dwywaith cymaint o arian - ac roedd 40% ohonynt yn gweithio ar ymchwil a datblygu cynnyrch newydd. Y cyfan sydd ei angen arnom yw 5,000 o fusnesau fel hyn a bydd y DU ar ei thraed eto! Mewn gwirionedd, byddai gweld 500 ohonynt yma yng Nghymru yn ddim byd llai na 'thrawsnewidiol'.

Onid ein tasg felly yw sicrhau nad economïau Asia yn unig, neu'r Unol Daleithiau, sy'n gartref i'r math hwn o gwmni; ond gweld bod y cyfalaf cychwynnol, y cyllid banc a'r gweithlu medrus ar gael yn y wlad hon - i ganiatáu i ni adeiladu ar ein cryfderau ym meysydd gweithgynhyrchu, dyfeisio a chreadigrwydd. Ond mae'n wir o hyd mai ychydig o obaith, os unrhyw obaith o gwbl, fydd gan fusnesau i gystadlu'n effeithiol yn erbyn cystadleuaeth gynyddol graff ac ymosodol o Asia a mannau eraill heb weithluoedd addysgedig iawn.

A gallaf daeru o leiaf rywfaint o awdurdod am y sylw hwnnw. Un o'r hetiau mwyaf diddorol a wisgaf yw het Ymgynghorydd Rhyngwladol i Awdurdod Datblygu Cyfryngol Llywodraeth Singapore. Yna, rwy'n gweithio gyda grŵp o bobl ifanc eithriadol o oleuedig ac ymroddedig sy'n meddu ar weledigaeth glir iawn o safle'u gwlad mewn 15 neu 20 mlynedd o nawr, ac maent yn gwneud penderfyniadau buddsoddi ac yn datblygu'r seilwaith a'r math o weithlu addysg addysgedig iawn a fydd yn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu nod.

Nid mater o hud a lledrith mo hyn; dyma grŵp hyddysg penderfynol sy'n gwneud penderfyniadau, weithiau rhai peryglus, ond sy'n cael cefnogaeth lwyr gan Lywodraeth sy'n credu ynddynt. Mae'n rhaid i ni ofyn i ni'n hunain a oes unrhyw sefyllfa debyg wedi'i hannog o ddifrif yn y wlad hon yn ystod yr hanner canrif diwethaf? Ac oes nad oes, pam?

Meddyliwch am hynny am eiliad os gwnewch chi; ac yna ystyried yr argyfwng sy'n bodoli'n amlwg iawn yn y pynciau STEM hynny (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) a berodd gymaint o ddryswch i mi pan oeddwn i'n ifanc, ac sydd wedi arwain at sefyllfa lle mae prinder difrifol iawn o raddedigion mewn Peirianneg, rhy ychydig o raddedigion Cemeg a llawer rhy ychydig o raddedigion Ffiseg. Yn fuan iawn rydych yn datblygu darlun o economi'r dyfodol sydd mewn trafferthion difrifol iawn os na chaiff y tueddiadau hyn eu hunioni. Ac os ychwanegwch at hynny'r

dybiaeth a dderbynnir yn gyffredinol mai allbwn addysgol llwyddiannus fydd yn pennu'r gwahaniaeth allweddol rhwng cenhedloedd uchelgeisiol a llwyddiannus yr 21ain ganrif, a'r rheiny sy'n cael eu rhoi i'r neilltu, yna yn sydyn reit rydych yn dechrau gweld sail dadl rymus iawn. Yn syml iawn dyma'r ddadl: onid yw'n wir bod datblygiad proffesiynol parhaus, sy'n benodol i bynciau ac o ansawdd uchel; ar y cyd ag addysgu STEM mwy cymhellgar gyda chymorth technoleg, yn arwain at garfan o raddedigion mwy cymwys yn y proffesiynau sydd eu hangen arnom yn fwyaf dybryd. Mae angen cenhedlaeth newydd o dechnoleg arnom, a allai, os caiff ei defnyddio'n dda a'i chyfuno â meddalwedd llawn dychymyg, helpu i greu cenhedlaeth o athrawon rhagorol o ddoniog sy'n meddu ar y sgiliau i ddod â'r pynciau anodd hyn yn fyw, ac mewn ffyrdd nad ydym erioed wedi dychmygu fyddai'n bosibl. Os llwydda, gallai hynny yn ei dro helpu i greu economi yn y DU sydd â gobaith o leiaf o gystadlu yn yr 21ain ganrif.

Ond mae fy ymrwymiad obsesiynol i werth addysg yn mynd ymhell y tu hwnt i fyd gwaith. Nid dadl yn unig yw hon am ein gallu i wneud y mwyaf o 'werth cyfranddeiliaid', neu hyd yn oed cynaliadwyedd y busnesau bach a chanolig hynny sydd eisoes yn gyrru gwerth economaidd 'UK plc'. Yn syml reit, mae fy nadl i'n saethu'n syth i gnewyllyn y mater, gan ofyn "pa fath o gymdeithas ydym ni wir am ei bod?". A dyma lle gellir dechrau bwrw amheuaeth dros unrhyw 'hapchwarae sicr' ar ddyfodol Singapore, Tsieina neu hyd yn oed yr Unol Daleithiau. Wedi'r cyfan, rydym i gyd yn llawer mwy nag androidau sy'n cael ein bwydo'n syml i system sy'n ein barnu ar sail ein hallbwn economaidd a dim arall.

Gadewch i mi roi ychydig o enghreifftiau i chi o'r hyn sydd gennyf mewn golwg: a oes unrhyw un yma heno, ni waeth bynnag pa mor gefnog ydyn nhw, sydd yn wir am weld eu hunain yn byw mewn 'cymuned gaeedig' – dim ond oherwydd bod lefel y troseddau yn eu cymdogaeth wedi dod yn annerbyniol o uchel? 'Dwylo i fyny' unrhyw un sydd am weld cost budd-daliadau'r wladwriaeth yn codi oherwydd bod nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn parhau i godi, wrth i'w lefelau sgiliau fethu hyd yn oed â chyrraedd anghenion mwyaf sylfaenol cyflogwyr?

Ym mhob ystyr bron iawn, mae ansawdd addysg y wladwriaeth a gynigir i'n plant a'n pobl ifanc yn cael effaith sylfaenol ar bob un ohonom; ni waeth a gaiff ein plant ein hunain eu haddysgu o fewn system y wladwriaeth ai peidio. Fel y gwelaf i'r sefyllfa, mae canlyniadau byw mewn cymdeithas ryng-ddibynnol yn llawer mwy na hil economaidd yn unig gyda'r gwledydd 'BRIC' bondigrybwyll (Brasil, Rwsia, India, Tsieina); mae hefyd yn golygu bod gan gymhelliant a gweithredoedd eraill allu cynyddol i gael effaith ar ansawdd ein bywydau ni ein hunain.

P'un a ydych yn hoffi'r ffaith ai peidio, rydym yn byw mewn byd globaleiddiedig, sy'n debyg i'r un a ddychmygwyd gan un o'ch beirdd enwog, Henry Vaughan:

> "Man hath still either toys or care:
> But hath no root, nor to one place is tied, but ever restless and irregular, about this earth doth run and ride.
> He knows he hath a home, but scarce knows where;
> He says it is so far that he has quite forgot how to go there."

Mae'r diffyg gwreiddiau hyn, yr ymdeimlad hwn o beidio â pherthyn, yn rhywbeth, does bosibl, y gall system addysg ag iddi adnoddau teg a sail gadarn mewn ymdeimlad o gyfrifoldeb torfol a chred yn ein rhwymedigaethau i eraill helpu i fynd i'r afael ag ef.

Manteision anferthol yn unig a gynigir i bob person unigol yn y gynulleidfa hon heno – ac ymhell y tu hwnt i hynny, gan system addysg wladwriaethol anideolegol, sydd wedi'i harwain a'i chyllido'n dda, drwy'r cyfnodau cynradd, uwchradd, y brifysgol neu addysg bellach, ac ymlaen i 'ddysgu gydol oes'. Ac os oes gan unrhyw un syniad gwell ar gyfer gosod y sylfeini ar gyfer y gymdeithas yr hoffem fyw a gweithio ynddi – byddwn wrth fy modd i'w glywed – gan y byddai hynny, ar y lleiaf, yn arbed llawer iawn o waith a phoen meddwl i mi!

Ond os ydwyf yn gywir, ac os ydym am ddatblygu economi wirioneddol gynaliadwy dros y degawdau sydd i ddod, yna rwy'n credu bod angen i ni hunanholi'n ddwys a gonest am wir achos y llanast ariannol rydym ynddo. Yn anad dim, er mwyn osgoi'r hyn a ddisgrifiodd Klaus Schwab, sylfaenydd Fforwm Economaidd y Byd, yn ddiweddar, "yr argyfwng ariannol ac economaidd hwn rhag datblygu'n argyfwng cymdeithasol."

Rwy'n credu ei bod yn amlwg i'r rhan fwyaf ohonom y bydd yn rhaid, yn y pen draw, i ni ddringo allan o'r dirwasgiad hwn mewn ffordd hen ffasiwn iawn, drwy bendroni'n ddifrifol am ein hunain ac ailafael yn yr hanfodion sylfaenol, drwy chwilio am ffyrdd o wella'n creadigrwydd ynghyd â'n cynhyrchiant, drwy gynilo mwy, drwy astudio'n galetach, drwy wneud yr holl bethau y gwyddem fod yn rhaid i ni eu gwneud ond nad oedd gennym yr wybodaeth, neu oherwydd ein bod yn rhy hunanfodlon, neu mewn rhai achosion yn rhy wirion i gofio. Mae pob un ohonoch chi'n deall hyn. Ar adeg pan fo'r sefyllfa economaidd yn hynod o heriol ar draws y sector cyhoeddus, mae dewisiadau anodd yn wynebu pob un ohonom.

Mae'n amlwg y bydd angen i ni wneud defnydd gwell o adnoddau prin. Ond ar yr un pryd, mae angen i ni warchod ansawdd, a gwella hygyrchedd. A dweud y lleiaf, mae hynny'n dipyn o gamp. Ac mae'n adeg hefyd i ni arloesi o ddifrif; adeg i ni feddwl am natur addysg uwch; os bydd angen, mae'n adeg i ni gymryd camau dewr iawn.

Yn Llundain, yn nogfen strategol y Llywodraeth Lafur flaenorol, sef Higher Ambitions, galwyd am fwy o amrywiaeth a dewis yn y ddarpariaeth i israddedigion. Roedd y

ddogfen yn galw am fwy o raglenni rhan-amser, mwy o gyrsiau sylfaen a graddau llwybr cyflym. Yn ei hanfod, roedd am weld gwir newid. Gyda chyllidebau'r sector cyhoeddus o dan bwysau, mae'n hanfodol ein bod yn cyfeirio buddsoddiad lle gall sicrhau'r effaith fwyaf.

Eleni, dathlir pen-blwydd y Brifysgol Agored yn ddeugain oed - a gellid dadlau mai dyma'r datblygiad arloesol diweddaraf yn hanes cyflwyno addysg ar lefel gradd. Mae'r Brifysgol Agored yn gweld ei niferoedd uchaf erioed o gofrestriadau - gydag ymhell dros 200,000 o fyfyrwyr o'r DU ei hun. Ond mae'n rhaid i ni gyfaddef nad yw'r sector addysg uwch yn sector sy'n ymateb yn dda i'r math o heriau a wynebwn yn ymwneud â thechnoleg. Os ydych yn amau fy ngair, rwy'n erfyn arnoch i ddarllen y dadleuon ynghylch cyflwyno'r Brifysgol Agored ddeugain mlynedd yn ôl, pan adwaenid hi fel 'University of the Air'.

Ni ddaeth canran sylweddol o garfan eleni o'r bobl ifanc 18 oed yng Nghymru a Lloegr o hyd i le yn y brifysgol, ni waeth bynnag eu canlyniadau arholiadau. Mae hyn yn drasiedi, ac yn argyfwng na all yr un weinyddiaeth – boed yn y Cynulliad yma yng Nghaerdydd neu'r Glymblaid yn Llundain – ei anwybyddu. Bydd angen gwneud tipyn mwy na 'chadw at y drefn bresennol' i fynd â'r afael â'r sefyllfa sydd ohoni.

Yn fy marn i, dyma'r adeg i ailfeddwl yn sylfaenol am yr hyn yn union rydym am i'n gwasanaeth addysg uwch ei gyflwyno; sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol gyda'r cwestiwn a ofynnais yn gynharach – pa fath o ddyfodol rydym am ei sicrhau i'n hunain fel cenedl?

Yn Lloegr, bydd canlyniad adolygiad yr Arglwydd Browne o gyllid addysg uwch yn gosod tôn y drafodaeth yn glir, a'r cyfeiriad i'w ddilyn, ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Os ydym i gredu'r straeon a gafodd eu rhyddhau ddoe yn yr Observer, yna mae digon o reswm i ni bryderu am effaith cynnydd sylweddol mewn ffioedd, yn arbennig ar fyfyrwyr o gefndiroedd tlawd neu ddifreintiedig.

Ond er fy mod yn fodlon gosod 'marc', byddai'n ffôl o beth i ddechrau condemnio gwaith yr Arglwydd Brown 'heb ei weld' – rwy'n ei adnabod yn bersonol fel dyn pwyllog ac ystyriol – ac yn sicr, nid wyf ar frys i ddod i farn. Ar ben hynny nid wyf yn ddigon cyfarwydd â manylion y sefyllfa bolisi yma yng Nghymru. Ond gadewch i mi gynnig fy nadansoddiad pennaf o rai o'r pethau a welais yn mynd o chwith yn San Steffan, yn y gobaith y byddant o gymorth wrth feddwl am y dyfodol yn yr hyn sy'n adeg heriol fel y gwelwn ni i gyd.

Gwnaeth fy mhlaid fy hun, pan oedd mewn Llywodraeth, o leiaf bedwar camgymeriad mewn perthynas â pholisi addysg: y cyntaf o'r rhain oedd drysu mentrau a chynnydd, a dehongli pob un fel y cam mawr nesaf i drawsnewid y byd. Yn ail, er i ni drafod llawer yn yr adeg pan etholwyd ni i'r Llywodraeth am 'lunio polisi ar sail tystiolaeth', yn fuan iawn cafodd y dystiolaeth honno a oedd ar gael ei gogynnwys neu weithiau

hyd yn oed ei hystumio, o blaid hyrwyddo atebion a oedd yn fwy cyfleus yn wleidyddol, neu wedi'u llywio hyd yn oed gan ideoleg. Yn drydydd, buom yn esgus 'ymgynghori' pan oedd penderfyniadau pellgyrhaeddol eisoes wedi'u gwneud mewn gwirionedd. Mae profiad yn dweud wrthyf mai ychydig o bethau sy'n codi gwrychyn pobl ddeallus yn fwy na gweld rhywun yn smalio ymgynghori. Mae'n sarhaus i'r graddau ei fod yn nawddoglyd, ac mae'n bychanu'r union bobl rydych yn cogio ymgynghori â nhw. Yn blaen, mae'n anonest hefyd.

Yn olaf ac yn fy marn i, y peth mwyaf anfaddeuol, oedd y methiant i gydio'r hyn mae pob darn bron iawn o ymchwil addysg ers dyn a ŵyr faint o amser wedi dweud wrthym a'i weithredu, a'r hyn, rwyf wedi llwyddo, gobeithio, i'w bwysleisio'n ddigonol drwy'r Ddarlith hon heno. Ansawdd yr addysgu yn yr ystafell ddosbarth, nid newidiadau i strwythur neu weinyddiaeth, fydd yn pennu canlyniad bron bob ymgais parhau i wella addysg yn y pen draw.

Yn hyn o beth eto, rwy'n credu bod gan Loegr lawer i'w ddysgu wrth Gymru. Fel y dywedodd yr Athro Hawker yn y Ddarlith honno y cyfeiriais ati'n gynharach: yng Nghymru, "mae ymdeimlad hanesyddol mwy amlwg o gymuned; lle mai cydweithio yn lle cystadlu yw arwyddair gwasanaethau cyhoeddus; a lle mae'r reddf i gydweithio wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn cymunedau lleol." Fel y gwelaf i'r sefyllfa, mae'r rheiny'n wir gryfderau, ac maen nhw'n gryfderau nad ydynt i'w gweld yn amlwg ymhlith y gwleidyddion sy'n rhan o'r Llywodraeth Glymblaid yn Llundain.

I gloi, gadewch i mi dynnu'r amrywiol linynnau hyn at ei gilydd. Wrth grafu fy mhen am yr hyn y byddwn yn ei ddweud heno, eisteddais i lawr dros y Sul a cheisio cyfuno rhyw fath o 'Gredo' - sy'n rhywbeth yw bûm yn bwriadu ei wneud ers tro - a heno rwy'n ei ddatgelu'n gyhoeddus!

Dyma'r hyn a ysgrifennais:

"Wrth i mi nesáu at 70 oed rwyf wedi dod i sylweddoli, gyda'r amser sydd ar ôl gennyf, mai ar ychydig o bethau y gallaf ganolbwyntio mewn difrif. Felly'r cwestiwn yw, dros beth byddwn yn fodlon 'marw mewn ffos'?"

Mewn ffordd mae'n weddol hunanamlwg: yn gyntaf, y math o 'ddemocratiaeth gyfrannol wybodus' yr oedd cenhedlaeth fy nhad yn fodlon ymroi iddi er mwyn ei gwarchod a'i hymestyn. Yn ail, amgylchedd cynaliadwy. Hynny yw, aer a dŵr glân; digon o fwyd maethlon, a'r lle a'r llonydd i bobl gael mwynhau bywydau boddhaol. Yn drydydd, ac efallai yn bwysicaf, system addysg sy'n gallu ysbrydoli pobl gyda'r dychymyg i arwain a chyflawni dwy ran gyntaf fy nghredo.

Rwy'n dweud, 'yn bwysicaf', oherwydd, dros amser, dim ond system addysg o'r radd flaenaf all gyflawni'r ddemocratiaeth wybodus honno a'r amgylchedd cynaliadwy hwnnw – ni allai'r gwrthwyneb byth fod yn bosibl. Os methwn â gadael y pethau hyn

yn etifeddiaeth i'r sawl sy'n ein dilyn, yna gellid barnu fy nghenhedlaeth i fel methiant llwyr bron iawn ".

Yn ystod y deuddeng mlynedd diwethaf a mwy rwyf wedi byw a gweithio, os nad yn y Llywodraeth go iawn, yna'n agos iawn ati. O ganlyniad, mae'n amlwg i mi bod angen i'r Blaid Lafur, fy mhlaid fy hun, o dan ei harweinydd newydd; Llywodraeth Cynulliad Cymru yma; yn wir pob math o Lywodraeth, ynghyd â'r rhan fwyaf o wleidyddion, wneud llawer, llawer mwy os ydym am osgoi'r math o ddyfodol y mae'r geiriau a ddefnyddiais yn rhybuddio'n llwyr yn eu herbyn.

Fel y gwelaf i'r sefyllfa, mae angen i ymarfer gwleidyddiaeth newid. Mae angen iddo newid yn radical – ac mae angen iddo newid yn fuan. Mae gormod o wleidyddion mewn gweinyddiaethau ar draws y DU yn bodloni eu hunain yn y gred bod eu cyfrifoldebau'n ymwneud ag edrych ymlaen rhyw 5 neu 10 mlynedd ar y mwyaf; nid yw'n syndod nodi mai ymysg y bobl hyn rydych yn tueddu i weld y rhai sy'n 'gwadu'r hinsawdd' yn bennaf; ac yn eu tro y rhain fyddai'n tueddu i gybyddlyd yn eu buddsoddiad yn yr hirdymor mewn addysg. Ond os ydych o ddifrif am rym gwleidyddiaeth i newid y dyfodol; os oes gennych ddiddordeb mewn esgor ar wir newid yn y byd; yna mae dyletswydd arnoch i feddwl nawr am 2025 – ac ymhell y tu hwnt i hynny.

A bod yn deg, mae'r rhan fwyaf o wleidyddion – a'r rhan fwyaf o fodau dynol fwy na thebyg – yn gymwys iawn wrth ymdrin ag argyfyngau, ond mae dylanwadu ar dueddiadau hirdymor yn gwestiwn cyfan gwbl wahanol! Mae cael pobl i edrych y tu hwnt i faterion uniongyrchol bywyd teuluol bob dydd; talu eich biliau a chadw eich swydd – yn enwedig yn yr adeg gynyddol anodd rydym yn byw ynddi – yn anodd iawn, a dweud y lleiaf.

Ni fydd yn hawdd ymbalfalu gyda'r llu o faterion sy'n ein hwynebu – rhai yn hysbys, ond llawer yn anhysbys; ac yn sicr ni fydd goleuadau pen y daith yn ymddangos dros nos. Ond gydag ymdeimlad newydd o gyfrifoldeb personol; a lefel lawer dyfnach o ymrwymiad i'n gilydd a'n cymuned; rwyf wir yn credu bod digon o ddaioni yn y byd yma i ganiatáu i ni gyflawni o leiaf ryw fath o ddyfodol 'cynaliadwy' – ac wrth wraidd hwnnw bydd system addysg y gallwn i gyd ymfalchïo ynddi.